

Cyllid cymorth myfyrwyr i fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru

Ffurflen Ymateb i'r

Ymgynghoriad

Eich enw: Michelle Matheron

Sefydliad (os yw'n gymwys): Y Brifysgol Agored yng
Nghymru

e-bost /rhif ffôn:

michelle.matheron@open.ac.uk / 029 2026 2708

Eich cyfeiriad: 18 Custom House Street, Cardiff, CF10
1AP

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod erbyn **14 Chwefror 2017** fan hwyraf:

Is-adran Addysg Uwch

Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

neu:

e-bost: hepolicy@wales.gsi.gov.uk

Cwestiwn 1 – Oes yna broblemau mawr o ran gweithredu'r newidiadau i'r pecynnau cymorth ffioedd dysgu a chymorth cynhaliaeth a fydd yn effeithio ar amserlen ymateb Llywodraeth Cymru?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
--------	--------------------------	-----------	--------------------------	---------------------------------	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn croesawu cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth myfyrwyr a chyllid addysg uwch (AU) a'r bwriad i roi'r system newydd ar waith ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19. Rydym yn falch iawn y caiff sefydliadau gymorth ariannol i gadw ffioedd ar lefel gymedrol ar gyfer cyrsiau rhan-amser er mwyn cymell unigolion i astudio'n rhan-amser, ochr yn ochr ag argymhellion ar gymorth ariannol ar gyfer costau byw myfyrwyr rhan-amser. Mae angen i'r cymorth ariannol a roddir i sefydliadau fod yn ddigonol i'w galluogi i gadw ffioedd rhan-amser ar lefelau cymedrol a sicrhau bod sefydliadau yn gynaliadwy yn ariannol. Mae'r system ariannu a chymorth newydd yn newid cadarnhaol i Addysg Uwch rhan-amser a'r rhai sy'n dewis astudio'n rhan-amser, rydym yn awyddus i weld y system newydd yn cael ei rhoi ar waith cyn gynted â phosibl.

O ran y broses o'i rhoi ar waith hoffem dynnu sylw at y canlynol:

- Mae gennym bryderon ynghylch gallu a pharodrwydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (CBF) a Cyllid Myfyrwyr Cymru i roi'r system newydd ar waith erbyn blwyddyn academaidd 18/19. Byddai angen i'r systemau fod ar waith mewn da bryd fel y gellid eu marchnata a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt yn rhagweithiol ac er mwyn galluogi sefydliadau i ddatblygu eu prosesau mewnol eu hunain ochr yn ochr â rhai'r CBF. Mae ein profiad hyd yma yn awgrymu y gallai fod yn anodd i'r CBF wneud hyn.
- Mae'r system cymorth ariannol newydd yng Nghymru yn rhan o system gynyddol wahanol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon; mae'n bosibl y bydd newidiadau mewn gwledydd eraill, megis cyflwyno benthyciadau cynhaliaeth i fyfyrwyr rhan-amser yn Lloegr a benthyciadau yng Ngogledd Iwerddon, arwain at flaenoriaethau croes a phroblemau sy'n gysylltiedig ag

adnoddau yn y CBF.

- Er mwyn i'r Brifysgol Agored yng Nghymru fynd ati'n rhagweithiol i hysbysu darpar fyfyrwyr am y system ariannu newydd a rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i fyfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau bydd angen i ni fod â hyder yn systemau'r CBF.
- Bydd gwybodaeth, cyngor ac arweiniad amserol yn hanfodol i sicrhau'r cynnydd mwyaf posibl yn nifer y myfyrwyr rhan-amser a allai ddeillio o'r system ariannu newydd. Bydd hyn yn arbennig o bwysig i'r Brifysgol Agored yng Nghymru gan fod ein myfyrwyr yn cyflwyno ceisiadau yn uniongyrchol i ni yn hytrach na thrwy UCAS a gan nad ydynt yn aml yn dod drwy lwybrau mynediad traddodiadol i AU megis yr ysgol neu'r coleg.
- Byddai'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r CBF ar raglen o wybodaeth, cyngor ac arweiniad ac er mwyn sicrhau bod prosesau'r CBF yn trin myfyrwyr llawn amser a myfyrwyr rhan-amser yn gyfartal ac yn cynnig yr un cymorth iddynt. Mae'n hanfodol bod dulliau astudio rhan-amser a llawn amser yn cael eu cyflwyno ar sail gyfartal yn negeseuon y CBF a'u systemau ar-lein er mwyn sicrhau bod gan y rhai sydd am astudio'n rhan-amser fynediad cyfartal at wybodaeth. Dylai'r holl brosesau gwneud cais ar gyfer pob dull astudio a phob math o gymorth fod ar gael ar-lein (ac wedyn ar ffurf copi called fel sy'n ofynnol gan y myfyriwr).
- Mae'n werth nodi y gallai sefydliadau, o bosibl, fod yn rheoli myfyrwyr o dan dair cyfundrefn ariannu, yn achos y Brifysgol Agored - myfyrwyr a ddechreuodd astudio gyda ni cyn 2014, myfyrwyr a ddechreuodd astudio rhwng 2014 a 2018 o dan y system benthyciadau rhan-amser a myfyrwyr a fydd astudio o 2018 ymlaen o dan y system newydd. Rydym am ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a'r CBF cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau y byddwn yn cael cymaint o amser â phosibl i roi gwybod i'n myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr am y system newydd.
- Byddem hefyd yn croesawu cael eglurder a chadarnhad ynglŷn â'r union feini prawf cymhwysedd er mwyn i ni allu rhoi'r newidiadau angenrheidiol i'n prosesau a'n negeseuon ar waith a'u cyfleu'n effeithiol i'n myfyrwyr.
- Er enghraifft, y meini prawf ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr rhan-amser yn Lloegr yw bod myfyriwr yn astudio **ar ddwyyster o 25% neu fwy** ac rydym yn tybio y bydd yr un meini prawf hyn yn gymwys i'r system newydd yng

Nghymru. Fodd bynnag, mae dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru yn nodi y rhoddir cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio "ar ddwyster o fwy na 25%" ac mae hefyd yn cyfeirio at chwilio am ffyrdd amgen o annog myfyrwyr i astudio cyrsiau "â dwyster o lai na 25%." Byddem yn croesawu cael cadarnhad y bydd y cymorth ar gael i fyfyrwyr rhan-amser sy'n astudio ar ddwyster o 25% neu fwy.

Cwestiwn 2 – Oes yna ganlyniadau anfwriadol tebygol o weithredu'r newidiadau i'r pecynnau cymorth ffioedd dysgu a chymorth cynhaliath?

Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input checked="" type="checkbox"/>
-----	--------------------------	---------	--------------------------	--------------	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Er bod datblygu system cymorth myfyrwyr ac ariannu AU newydd yn dasg gymhleth credwn fod adolygiad Diamond wedi darparu asesiad cadarn o'r materion sydd angen eu hystyried. Rydym yn croesawu argymhellion yr adolygiad ac ymateb Llywodraeth Cymru. Isod rydym wedi nodi rhai meysydd sy'n haeddu cael eu hystyried ymhellach, yn ein barn ni:

- Dwyster astudio: Er ein bod yn deall y rhesymeg dros gyfyngu cymorth i'r myfyrwyr hynny sy'n astudio ar ddwyster o 25% neu fwy credwn fod angen cymorth ar gyfer modiwlau llai o faint ac astudio ar ddwyster is am mai dyma'r opsiwn mwyaf priodol ar gyfer llawer o fyfyrwyr gan gynnwys y rhai sydd bellaf i ffwrdd oddi wrth AU. Byddai'n destun pryder i ni pe bai myfyrwyr yn cael eu gorfodi i astudio ar ddwyster sy'n uwch na'r hyn sy'n ddelfrydol iddynt (naill ai o ran hyder neu o ran ymrwymiad amser) er mwyn cael benthyciadau. Gallai hyn olygu eu bod yn llai tebygol o lwyddo yn AU.
- Dylem hefyd fod yn ymwybodol o'r effaith bosibl o ran recriwtio myfyrwyr yn 2017/18 am ei bod yn bosibl y bydd myfyrwyr yn dewis gohirio dechrau astudio tan 18/19 os bydd mwy o gymorth ar gael iddynt bryd hynny.
- Mae Tîm Polisi'r CBF wedi hysbysu'r Brifysgol Agored y byddai gan fyfyrwr a ddechreuodd astudio cyn 2014 yr hawl i wneud cais am Fenthyciad Ffioedd

Dysgu i Fyfyrrwr Rhan-amser pe bai'n gadael ei gymhwyster gwreiddiol, yn methu â'i ennill neu dynnu'n ôl ohono ac yn dechrau astudio ar gyfer cymhwyster newydd. Yn weithredol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i fyfyrwr naill ai ohirio eu hastudiaethau am flwyddyn academaidd lawn neu ddechrau cwrs newydd o'r dechrau er mwyn cael y pecyn Benthyciad Ffioedd Dysgu. Rydym yn rhagweld na fydd rhai myfyrwr wedi cwblhau'r cymwysterau y gwnaethant ddechrau astudio ar eu cyfer cyn 2014 erbyn i'w pecyn cymorth gael ei dynnu'n ôl. Disgwylid i'r myfyrwr hyn gymryd blwyddyn i ffwrdd o astudio, neu roi'r gorau i'w cyflawniadau blaenorol drwy ddechrau eto, er mwyn cael cymorth myfyrwr. Yn ein barn ni, dylai myfyrwr allu trosglwyddo yn uniongyrchol i'r pecyn cymorth newydd heb fod angen iddynt ohirio eu hastudiaethau.

- Fel y nodwyd uchod byddem yn croesawu cael eglurder ynglŷn â rhai o fanylion y pecyn cymorth er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol na allwn eu rhagweld ar hyn o bryd. Hoffem gael eglurhad ar atebolrwydd am fenthyciad neu grant os bydd myfyriwr yn gadael cwrs ar ôl cwblhau rhan ohono a goblygiadau grantiau cynhaliaeth myfyrwr i ddysgwyr sy'n hawlio budd-daliadau.
- Hoffem hefyd gael cadarnhad penodol na fydd unrhyw derfyn oedran ar y pecyn cymorth ac y bydd y pecyn cymorth llawn ar gael i'r rhai sy'n astudio ar raglenni dysgu o bell.
- Byddem yn croesawu cael cyfle i drafod manylion y cynigion cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol anfwriadol ar fyfyrwr rhan-amser.

Cwestiwn 3 – Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhannu risgiau a rheoli costau/niferoedd y myfyrwr sy'n gymwys am gymorth i fyfyrwr?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
--------	-------------------------------------	-----------	--------------------------	---------------------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

- Mae cyllid rhan-amser yn cael ei gyfyngu i ryw raddau gan lefel y dysgu a'r grant addysgu a gaiff ei ddsbarthu i sefydliadau. Mater i'r sefydliadau fydd penderfynu a ydynt am recriwtio uwchlaw'r niferoedd hynny ond rydym yn awyddus i sicrhau y bydd y pecyn benthyciadau a chymorth cynhaliaeth ar gael i'r myfyrwyr hynny o hyd.
- Mae sicrhau parch cydradd i fyfyrwyr rhan-amser yn hanfodol. Os bydd costau yn uwch na'r disgwyl ni ddylai cymorth i fyfyrwyr rhan-amser gael ei leihau er mwyn helpu i gynyddu nifer y myfyrwyr llawn amser.
- Er ein bod yn deall bod angen bod yn ymwybodol o'r gost i bwrs y wlad mae'r syniad o gapio nifer y myfyrwyr mynd yn groes i bolisi mynediad agored y Brifysgol Agored ac, yn ein barn ni, ni fyddai capio nifer y myfyrwyr o fudd i economi Cymru nac yn sicrhau cyfiawnder cymdeithasol.
- O safbwynt stiwardiaeth gyhoeddus, mae'n hanfodol bod unrhyw fyfyrwr, dysgwr o bell neu unigolyn arall, nad yw'n dilyn rhaglen astudio mwyach, yn cael ei nodi cyn pob dyddiad talu benthyciad. Yn y Brifysgol Agored rhoddir gwybod i'r CBF am fyfyrwyr sydd wedi gohirio eu hastudiaethau neu wedi tynnu'n ôl ohonynt cyn gynted â phosibl. Rydym yn cynnal gwiriadau 'ymgysylltu gweithredol â myfyrwyr' er mwyn ein helpu i nodi cyfranogiad y myfyrwyr mewn rhaglenni astudio. Caiff ein gwiriadau eu cymeradwyo gan y CBF, fel y bo'n briodol, er mwyn atal myfyrwyr rhag cael arian nad oes ganddynt hawl i'w gael. Gan y bydd cynhyrchion cynhaliaeth yn cael eu talu'n uniongyrchol i'r myfyrwr, ac o bosibl mewn rhandaliadau tymhorol neu fisol, mae amseriad y gwiriadau hyn yn hanfodol. Mae proses debyg ar waith ar gyfer benthyciadau i raddedigion yn Lloegr a chaiff ei rhoi ar waith ar gyfer benthyciadau i raddedigion yng Nghymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18. Ar gyfer benthyciadau cynhaliaeth i fyfyrwyr rhan-amser a benthyciadau i raddedigion, y broses a ddilynir yw cynnal gwiriadau cyn i'r arian gael ei ryddhau fel bod llawer llai o risg nag a geir yn achos taliadau ffioedd dysgu i israddedigion.
- Ar gyfer rheoli benthyciadau ffioedd dysgu i israddedigion, mae gan y Brifysgol Agored y data archwiliadwy canlynol i ddarparu tystiolaeth o gyfranogiad mewn rhaglenni astudio:
 - Mewngofnodi i wefan ar gyfer cyrsiau Amgylchedd Dysgu Rhithwir
 - Cyflwyno unrhyw asesiad a gofnodwyd i systemau'r Brifysgol Agored

- Presenoldeb mewn arholiad / asesiad ar ddiwedd modiwl
- Myfyrwyr yn cadarnhau eu bod yn parhau i astudio, mewn ymateb i ymyriad ffurfiol neu wiriad cyfranogi mewn astudio.

Bydd gwiriadau cyfranogi mewn astudio yn parhau i ddefnyddio'r data archwiliadwy a nodwyd uchod ac yn gynyddol bydd yn ystyried 'ôl troed digidol' wrth iddynt ddefnyddio systemau'r Brifysgol i barhau â'u hastudiaethau.

- Mae gan y Brifysgol Agored systemau trylwyr ar waith i fesur a lliniaru risg a rheoli'r modd y dyrennir arian y Llywodraeth. Gallwn ddarparu rhagor o wybodaeth am hyn yn ôl yr angen.

Cwestiwn 4 – A fydd gweithredu'r cynigion hyn yn rhoi unrhyw grŵp penodol o dan anfantais?

- Myfyrwyr anabl neu, o bosibl, fyfyrwr sy'n gweithio'n llawn amser – efallai y bydd angen i'r unigolion hyn astudio ar ddwyter sy'n is na 25% a dylid ystyried sut y dylid helpu'r myfyrwyr hyn i gyflawni eu nodau astudio.
- Byddem yn croesawu cael eglurhad o union fanylion y pecyn cymorth er mwyn sicrhau bod myfyrwyr hyn a dysgwyr o bell yn gymwys i gael cymorth.
- Gallai'r rhai y mae angen iddynt astudio'n hyblyg fod o dan anfantais os na fydd y pecyn cymorth cynhaliaeth yn ddigon hyblyg i ddiwallu eu hanghenion astudio, er enghraifft dylai'r system ddarparu ar gyfer codi neu ostwng band cymorth cynhaliaeth unigolyn yn ystod y flwyddyn.
- Efallai y bydd rhai myfyrwyr (yn enwedig y rhai sy'n dod o gefndir ehangu mynediad) yn pryderu ynghylch ymrwymo i fenthyciad i dalu ffioedd, felly mae angen rhywfaint o ddarpariaeth gychwynnol am ddim neu gost isel ar gyfer AU o hyd, yn ogystal â chyngor ac arweiniad yn lleol i gefnogi myfyrwyr.
- Dylai gwybodaeth, cyngor ac arweiniad fod ar gael i oedolion gyda'r un lefel o gymorth a chyhoedduswydd i fyfyrwyr llawn amser a rhan-amser.
- Gall fod goblygiadau hefyd i deuluoedd ag incwm sydd ychydig dros y trothwy sydd am gynnal mwy nag un unigolyn yn y teulu drwy'r brifysgol. Gallent fod

yn deuluoedd â mwy nag un plentyn sydd am astudio'n llawn amser neu'n deuluoedd â phlentyn / plant sydd am astudio ond lle mae rhiant hefyd am astudio'n rhan-amser ei hun, o bosibl.

Cwestiwn 5 – Mae Llywodraeth Cymru am gynyddu nifer y cyrsiau sydd ar gael ar ddwystr is. Sut allwn ni annog myfyrwyr i astudio cyrsiau â dwyster o lai na 25% heb ddarparu cymorth iddynt?

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ystyried a datblygu ffyrdd o annog myfyrwyr i astudio ar gyrsiau â dwyster sy'n llai na 25% ac rydym yn croesawu bwriad Ysgrifennydd y Cabinet i geisio dod o hyd i ffyrdd amgen o gefnogi'r ddarpariaeth hon. Mae'r cyrsiau dwyster is hyn yn cyflawni swyddogaeth hanfodol o ran ehangu mynediad i AU a gallant fod yn opsiwn delfrydol i'r rhai sydd am astudio a gweithio a'r rhai na allant, o bosibl, ymdopi â rhaglenni astudio dwysach. Rydym yn cynnig rhai sylwadau cychwynol ar hyn isod ond byddem yn awyddus i drafod hyn yn fanylach:

- Bydd yn bwysig sicrhau na fydd nifer y cyrsiau dwyster is a ddarperir yn gostwng. Os na fydd unrhyw gymorth ar gael i fyfyrwyr gellid tybio nad oes galw am gyrsiau o'r fath ac, felly, gallai sefydliadau dynnu'r ddarpariaeth yn ôl. Dylid annog sefydliadau i ddatblygu a chefnogi'r ddarpariaeth hon.
- Byddai'n ddefnyddiol atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo credydau er mwyn i fyfyrwyr allu casglu credydau a'u trosglwyddo o ddarnau llai o waith astudio gan ychwanegu gwerth at gyrsiau dwyster is a'u gwneud yn fwy deniadol i fyfyrwyr.
- Dylid rhoi cymorth i sefydliadau (drwy CCAUC) er mwyn eu galluogi i ddarparu opsiynau dysgu hyblyg, gan gynnwys ar-lein ac o bell.
- Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi'r modiwlau byrrach am eu bod yn galluogi eu staff i astudio cymaint ag y gallant ymdopi ag ef mewn ffordd hyblyg. Gellid rhoi cymhellion i gyflogwyr annog a chefnogi staff i astudio modiwlau byrrach os byddant o fudd i'r gweithlu.
- Rydym o'r farn y dylid parhau i ariannu Mynediad lefel 0 y Brifysgol Agored sy'n cael cyllid cymorth myfyrwyr ar hyn o bryd os ydynt yn gysylltiedig â chymhwyster. Mae'r cyrsiau lefel 0 hyn y dyfernir 30 o greydau ar eu cyfer

(dwyster o 25%) yn llwybr hanfodol i AU (yn y Brifysgol Agored ac mewn darparwyr eraill) ar gyfer llawer o fyfyrwyr nad ydynt wedi dod drwy lwybrau traddodiadol yr ysgol nac AB.

- Rydym hefyd o'r farn y dylai modiwlau unigol gael cyllid cymorth myfyrwyr hyd yn oed os nad ydynt yn gysylltiedig â chymhwyster. Rydym yn ceisio annog cymaint o fyfyrwyr â phosibl i fanteisio ar AU a thrwy roi cymorth ariannol ar gyfer modiwlau annibynnol sicrheir na fydd hyder myfyrwyr yn cael ei danseilio'n ormodol ar ddechrau eu hastudiaethau. Ar gyfer rhai myfyrwyr ac ar gyfer cyflogwyr gall modiwl unigol ddiwallu eu hanghenion astudio.

Cwestiwn 6 – Pa effeithiau a chanlyniadau anfwriadol a fydd yn deillio o symud i daliadau cynhaliaeth misol?

- Gan fod rhai o'n myfyrwyr yn newid dwyster eu rhaglen astudio yn ystod y flwyddyn gallai hyn fod yn gam cadarnhaol ac mae'n golygu y byddai eu benthyciad presennol yn adlewyrchu eu dwyster astudio presennol yn well. Mae taliadau misol hefyd yn debygol o wella gallu myfyriwr i reoli ei arian yn effeithiol tra bydd yn dilyn ei raglen astudio.
- Fodd bynnag, mae hefyd yn golygu y gallai fod gan fyfyrwyr gostau sydd i'w talu ymlaen llaw nad ydynt, o bosibl, yn gallu eu talu.
- Gallai fod yn anodd i'r CBF roi system o daliadau misol ar waith a dylid sicrhau bod systemau digon cadarn ar waith i sicrhau y caiff taliadau eu rheoli'n effeithiol ac yn effeithlon.
- Hefyd, mae'n rhaid ystyried effaith taliadau cynhaliaeth uwch ar hawl myfyriwr rhan-amser i gael budd-daliadau prawf modd. Mae'n debygol yr effeithir ar hawl myfyriwr i gael budd-daliadau o'r fath os bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau o'r farn bod cyllid cynhaliaeth yn incwm. Ni ddylai'r rhai sydd ond yn llwyddo i ymdopi gael eu cosbi'n ariannol os ydynt am wella eu sgiliau/meithrin sgiliau newydd/ymuno â'r gweithlu. Byddem yn croesawu cael eglurhad ynglŷn â'r mater hwn cyn gynted â phosibl.
- Mae'n rhaid osgoi unrhyw effaith negyddol ar gymorth sy'n gysylltiedig ag anabledd er mwyn sicrhau nad effeithir yn anghymesur ar fyfyrwyr anabl. Mae rhaglenni astudio rhan-amser yn denu cyfran gymharol uwch o fyfyrwyr anabl, yn enwedig ar gyrsiau dysgu o bell. Mae 20.1 y cant o fyfyrwyr y Brifysgol

Agored yng Nghymru wedi datgan bod ganddynt anabledd, sy'n llawer uwch na'r gyfran ar gyfer unrhyw brifysgol arall yn y DU. Mae llawer mwy sydd ag anabledd ond sydd wedi dewis peidio â datgan hynny. Mae'r hyblygrwydd a gynigir gan raglenni astudio rhan-amser, a'r cymorth a gânt drwy ddysgu ar-lein, yn un o'r prif resymau pam mae cymaint o fyfyrwyr anabl yn dewis y Brifysgol Agored.

Cwestiwn 7 – Sut y bydd symud i system wedi'i rheoleiddio'n llawn yn effeithio ar ddarparwyr rhan-amser yng Nghymru?

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn croesawu'r penderfyniad i symud i system wedi'i rheoleiddio'n llawn ar gyfer darparwyr rhan-amser yng Nghymru. Rydym yn tybio y byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni gwblhau cynllun ffioedd a mynediad (fel mae'r darparwyr llawn amser yn gorfod gwneud ar hyn o bryd) a byddem yn fodlon gwneud hynny.

Cwestiwn 8 - Ydych chi'n credu y bydd y polisi hwn yn peri anfantais i unrhyw grwpiau penodol?

Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
-----	--------------------------	---------	-------------------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Dd/G

Cwestiwn 9 – Ydych chi'n credu bod y nod o gael system ran-amser wedi'i rheoleiddio'n llawn erbyn 2021 yn amserlen realistig?

Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input checked="" type="checkbox"/>
-----	--------------------------	---------	--------------------------	--------------	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Ymddengys fod pedair blynedd yn gyfnod rhesymol o amser a thybio y caiff y ddeddfwriaeth briodol ei llunio'n amserol fel y gellir rhoi newidiadau ar waith yn effeithiol.

Cwestiwn 10 – Oes yna broblemau mawr y dylem eu hystyried wrth gyflwyno ein cynigion ar gyfer cymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
-----	-------------------------------------	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn croesawu'r cynigion mewn perthynas â chymorth i raddedigion, rydym yn cynnig y sylwadau canlynol mewn perthynas â'u gweithredu:

- Cafodd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (CBF) broblemau a oedd yn ymwneud â chyflwyno Benthyciadau i Fyfyrwyr a oedd yn astudio ar gyfer Gradd Meistr yn 16/17, pan gafodd rhai myfyrwyr gyngor anghywir ynghylch eu cymhwysedd i gael benthyciad. Rhoddodd hyn fyfyrwyr a phrifysgolion mewn sefyllfa anodd. Yn seiliedig ar y profiadau blaenorol hyn, rydym yn cynghori, er mwyn sicrhau y caiff y cynnyrch ei ddarparu yn ddidrafferth ac yn effeithiol, y dylai'r gwaith o brosesu'r benthyciadau gael ei gwblhau gan ddim rhan-amser arbenigol.
- Yn ein barn ni, dylai'r dwyster astudio o 50% ar gyfer myfyrwyr rhan-amser alluogi'r rhai sydd am astudio gyda ni i wneud hynny a chael cymorth ond byddem yn croesawu cael eglurhad o union fanylion y cynnig hwn a byddem yn awyddus i sicrhau na chaiff myfyrwyr y Brifysgol Agored eu heithrio na'u rhoi o dan anfantais drwy amryfusedd mewn unrhyw ffordd. Mae gennym gryn dipyn o brofiad o'r materion manwl yn hyn o beth sy'n deillio o'n hymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r system benthyciadau i raddedigion yn Lloegr a byddem

yn awyddus i rannu'r hyn a ddysgwyd gennym o'r broses hon a sicrhau y bydd y system Benthyciadau i Raddedigion newydd yng Nghymru yn gweithio ar gyfer myfyrwyr y Brifysgol Agored.

- Deallwn y bydd y system Benthyciadau i Raddedigion newydd yng Nghymru (ar gyfer Blwyddyn Academaidd 17/18) yn cynnwys y cyfyngiad canlynol ar oedran "Rhaid i ymgeiswyr fod o dan 60 oed ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eu cwrs." Byddem yn croesawu cael eglurhad na fydd unrhyw derfyn oedran uchaf ar gyfer y pecyn cymorth newydd i fyfyrwyr a chadarnhad y bydd myfyrwyr sy'n dysgu o bell yn gymwys i gael cymorth.

Cwestiwn 11 – Oes yna ganlyniadau anfwriadol tebygol o weithredu'r cynigion hyn?

Oes	<input type="checkbox"/>	Nac os	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input checked="" type="checkbox"/>
-----	--------------------------	--------	--------------------------	--------------	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Gweler ein hymateb i gwestiwn 10 sy'n ymwneud â dwyster astudio a'n profiad gyda'r system Benthyciadau i Raddedigion yn Lloegr.

Cwestiwn 12 - A fydd gweithredu'r cynigion hyn yn rhoi unrhyw grŵp penodol o dan anfantais?

Bydd	<input type="checkbox"/>	Na fydd	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input checked="" type="checkbox"/>
------	--------------------------	---------	--------------------------	--------------	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Mae'n bosibl y bydd angen amser ychwanegol ar fyfyrwyr anabl i gwblhau eu cymhwyster a dylid ystyried hyn.

Cwestiwn 13 – Rydym yn credu y byddai'n gymhleth a chostus i reoleiddio'r system ôl-raddedig yn llawn – ydych chi'n cytuno ac os na, sut fydddech chi'n gweithredu system wedi'i rheoleiddio'n llawn yng Nghymru?

Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input checked="" type="checkbox"/>
-----	--------------------------	---------	--------------------------	--------------	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Nid oes gan y Brifysgol Agored farn ar y mater hwn.

Cwestiwn 14 – Oes yna unrhyw ffordd arall o weithredu'n cynigion ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig a fyddai'n hyrwyddo mynediad cyfartal yn well?

Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
-----	--------------------------	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Ar amod y bydd y system ar agor i fyfyrwyr o bob oedran, yn cynnwys myfyrwyr o bell ac yn ystyried natur unigryw astudio gyda'r Brifysgol Agored wrth asesu dwyster astudio, byddem yn fodlon. Yn ein barn ni, dylid ystyried cyfnodau astudio hwy (neu â dwyster is) ar gyfer myfyrwyr anabl.

Cwestiwn 15 – A fydd yna broblemau gweithredu'n deillio o ddarparu cymorth i fyfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn lleoliad gofal?

Bydd	<input checked="" type="checkbox"/>	Na fydd	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
------	-------------------------------------	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau ategol

- Byddem yn croesawu cael eglurhad ynglŷn â'r diffiniad o leoliad gofal a manylion y meini prawf sydd angen eu bodloni er mwyn cael cymorth.
- Yn ein barn ni, dylai'r polisi hwn gwmpasu myfyrwyr o bob oedran fel y byddai myfyriwr hŷn sy'n astudio'n rhan-amser ac sydd â phrofiad o'r system ofal yn gymwys i gael cymorth.
- Mae cynigion yn yr adran hon o'r papur ymgynghori i weithio gydag UCM Cymru ar y mater hwn ac ar y cymorth y gellid ei roi i ofalwyr; nid yw Cymdeithas Myfyrwyr y Brifysgol Agored (OUSA) yn rhan ffurfiol o UCM Cymru ond rydym yn argymhell y dylid eu cynnwys yn y gwaith pwysig hwn. Mae OUSA yn cynrychioli corff mawr ac amrywiol o fyfyrwyr y Brifysgol Agored a byddai'n gwneud cyfraniad buddiol i'r gweithgarwch ymgynghori hwn o safbwynt myfyrwyr rhan-amser. Rydym hefyd yn argymhell y dylid ymgynghori â sefydliadau yn y trydydd sector a chyrrff cynrychioliadol yn y maes hwn.

Cwestiwn 16 – Sut allwn ni ddarparu rhagor o gymorth i fyfyrwyr sy'n ofalwyr?

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn cynnig [cymorth, cyngor ac arweiniad a chwrs penodol](#) i fyfyrwyr sy'n ofalwyr. Rydym hefyd wedi gwneud ymchwil i sut y gellid cynorthwyo gofalwyr yn y sector addysg uwch ac mae'r adroddiad '[Extending opportunities for carers](#)' yn nodi ein hargymhellion yn y maes hwn. Nodir isod rai awgrymiadau penodol ar gyfer helpu gofalwyr i fanteisio ar AU sy'n seiliedig ar ein gwaith:

- Gostwng y trothwy ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr.
- Cefnogi darpariaeth hyblyg a chysiau â dwyster is, gan godi ymwybyddiaeth a rhoi cyngor ac arweiniad drwy asiantaethau cymorth yr ymddiriedir ynddynt: Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, canolfannau Gofalwyr Awdurdodau Lleol, gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd.
- Cyllid bwrsariaethau ychwanegol a ddylai fod ar gael i ofalwyr o bob oedran nid dim ond gofalwyr sy'n oedolion ifanc ac ymgyrch arbennig i hyrwyddo darpariaeth rhan-amser a hyblyg i ofalwyr na allant, o bosibl, astudio'n llawn amser.
- Dylai pobl a fu'n ofalwyr o fewn y ddwy flynedd flaenorol hefyd fod yn gymwys i gael cymorth.

- Dylid ystyried cynnig amser ychwanegol i ennill cymwysterau, fel y gellir darparu cymorth ar ddwyter is.
- Cymorth ychwanegol yn benodol ar gyfer gofynion TG e.e. cyfarpar a chysylltedd band eang.
- Cymorth penodol (h.y. hyfforddiant/sefydlu ac ati) er mwyn darparu'r sgiliau sydd eu hangen i astudio o bell.
- Dylid ystyried darparu cymorth sefydliadol er mwyn galluogi prifysgolion i roi cymorth wedi'i deilwra i ofalwyr.

Cwestiwn 17 – Oes yna ganlyniadau anfwriadol tebygol o weithredu'r cynigion hyn?

Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input checked="" type="checkbox"/>
-----	--------------------------	---------	--------------------------	--------------	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Dylai fod cost ychwanegol ond mae sicrhau bod gan ofalwyr a'r rhai sydd â phrofiad o'r system gofal fynediad cyfartal i AU yn hanfodol i ehangu mynediad, gan hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a gwella'r economi.

Cwestiwn 18 – A fydd gweithredu'r cynigion hyn yn rhoi unrhyw grŵp penodol o dan anfantais?

Bydd	<input type="checkbox"/>	Na fydd	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input checked="" type="checkbox"/>
------	--------------------------	---------	--------------------------	--------------	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Dd/G

Cwestiwn 19 – Beth yw'r ffordd orau o weithredu a gweinyddu'r cynllun peilot arfaethedig ar ymestyn y pecyn cymorth i fyfyrwyr y tu hwnt i'r DU?

Pa weithgaredd bynnag a roddir ar waith i ddatblygu'r cynllun peilot hwn dylai gynnwys myfyrwyr rhan-amser ac ystyried sut y byddant am fanteisio ar y cynllun peilot hwn, o bosibl.

Cwestiwn 20 – A ddylai'r cynllun peilot ystyried unrhyw faterion penodol?

Dylai	<input checked="" type="checkbox"/>	Na ddylai	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
-------	-------------------------------------	-----------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae angen ystyried dysgwyr o bell a dysgwyr rhan-amser yn ogystal â myfyrwyr traddodiadol sy'n astudio'n llawn amser.

Cwestiwn 21 – Sut fydddech chi'n rheoli costau a galw am unrhyw gynllun yn y dyfodol sy'n ymestyn cymorth y tu hwnt i unrhyw gynllun peilot?

Nid oes gan y Brifysgol Agored farn ar y mater hwn.

Cwestiwn 22 – Ai'r meysydd pwnc uchod yw'r rhai pwysicaf yng nghyd-destun cymwysterau cyfwerth neu is (ELQ)?

Ie	<input type="checkbox"/>	Nage	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input checked="" type="checkbox"/>
----	--------------------------	------	--------------------------	--------------	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn cefnogi argymhelliad panel adolygiad Diamond na ddylai fod unrhyw gyfyngiadau ar gymwysterau cyfwerth neu is (ELQ) sy'n atal myfyrwyr rhag cael cymorth. Yn ein barn ni, bydd hyn yn helpu i wella sgiliau gweithlu Cymru, annog gweithwyr i feithrin sgiliau newydd a datblygu'r

economi. Gan nad oes opsiwn i roi system ar waith lle nad oes unrhyw gyfyngiadau ar gymwysterau cyfwerth neu is, rydym yn cefnogi'r rhestr o bynciau yn y ddogfen ymgynghori ac yn gofyn am i'r argymhellion canlynol gael eu hystyried cyn gynted â phosibl:

- Dylid ehangu'r polisi o eithrio graddau yn y pynciau STEM drwy ymestyn yr eithriad i gynnwys graddau 'hanner STEM' lle mae 50% neu fwy o'r cwrs mewn pwnc STEM. Byddai'r graddau hyn yn cynnwys, er enghraifft, BSc mewn Cyfrifiadura a Busnes.
- Dylid ymestyn yr eithriad o ran cymwysterau cyfwerth neu is i raddau mewn Cyfrifyddiaeth, Busnes, Cyllid a Rheoli er mwyn datblygu BBaChau llwyddiannus a chynorthwyo'r rhai sydd am fod yn hunangyflogedig neu ddilyn gyrfaedd llwyddiannus mewn cwmnïau cenedlaethol a rhyngwladol mwy o faint yn ogystal â'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector.
- Dylid cysylltu unrhyw eithriadau o ran cyrsiau yn y dyfodol â sectorau â blaenoriaeth a chynllun cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru (a ddylai ynddo'i hun adlewyrchu'r angen i hyrwyddo dysgu gydol oes a gwella sgiliau / meithrin sgiliau newydd).
- Dylid ystyried cynnwys cyrsiau gofal cymdeithasol er mwyn helpu i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu.
- Nid yw'r rhestr bresennol yn cyfrif yn ddigonol am y gweithlu mawr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Dylid mapio anghenion sgiliau'r rhai yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac wedyn eu hystyried er mwyn eu heithrio rhag y cyfyngiadau ar gymwysterau cyfwerth neu is.
- Dylid hefyd ystyried cynnwys leithoedd Tramor Modern a chyrtsiau sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol i'w cynnwys cyn gynted â phosibl.

Cwestiwn 23 – Oes yna gyrsiau neu feysydd pwnc eraill y dylai Llywodraeth Cymru ystyried eu cynnwys? Os felly, pam?

Oes	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
-----	-------------------------------------	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Gweler yr ateb i gwestiwn 22.

Cwestiwn 24 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar unrhyw agwedd arall ar gynigion y ddogfen hon?

Dd/G

Cwestiwn 25 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn cefnogi'n gryf gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu addysgu uwch a chymorth i fyfyrwyr. Yn ein barn ni, mae'r cynigion yn cynnig system ariannu deg a chynaliadwy ar gyfer addysg uwch rhan-amser yng Nghymru sy'n rhywbeth rydym wedi bod yn galw amdano yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn falch iawn y caiff sefydliadau gymorth i gadw ffioedd ar lefel gymedrol ar gyfer cyrsiau rhan-amser er mwyn cymell unigolion i astudio'n rhan-amser ochr yn ochr â'r argymhellion ynglŷn â chymorth i dalu costau byw myfyrwyr rhan-amser. Mae angen i'r cymorth ariannol a roddir i sefydliadau fod yn ddigonol i sicrhau y gallant gadw ffioedd am gyrsiau rhan-amser ar lefelau cymedrol a sicrhau bod sefydliadau yn gynaliadwy yn ariannol.

Er nad yw'n dod o fewn cwmpas yr ymgynghoriad penodol hwn hoffem hefyd nodi ein bod o'r farn y dylai Prentisiaethau Lefel Uwch gael eu cefnogi yn yr un ffordd a byddem yn croesawu cael cyfle i siarad â Llywodraeth Cymru am yr hyn y gallem ei gynnig o ran darpariaeth Prentisiaethau Lefel Uwch.

Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Sefydlwyd y Brifysgol Agored yn 1969 a chofrestrodd y myfyrwyr cyntaf yn 1971. Mae'n arweinydd byd-eang o ran cynnig cyfleoedd dysgu o bell hyblyg ac arloesol ar lefel addysg uwch. Mae'n agored i bobl, lleoedd, dulliau a syniadau. Mae'n hyrwyddo cyfleoedd

addysgol a chyfiawnder cymdeithasol drwy gynnig addysg brifysgol o safon uchel i bawb sy'n dymuno cyflawni eu huchelgais a gwireddu eu potensial.

Mae dros 7,000 o fyfyrwyr dros Gymru gyfan yn astudio gyda'r Brifysgol Agored ar hyn o bryd, ac maent wedi'u cofrestru ar oddeutu 10,000 o fodiwlau. Mae myfyrwyr y Brifysgol Agored ym mhob un o etholaethau Cynulliad Cymru a ni yw darparwr addysg uwch israddedig rhan-amser mwyaf blaenllaw'r wlad. Mae bron dri o bob pedwar o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored mewn cyflogaeth tra eu bod yn astudio a chyda pholisi derbyniadau agored, nid oes angen unrhyw gymwysterau i astudio ar lefel gradd. Mae dros draean o'n myfyrwyr israddedig yng Nghymru yn dod atom heb gymwysterau mynediad safonol i brifysgol.

Fel arweinydd byd-eang ym maes technoleg addysg, mae ein portffolio 'cynnwys agored' eang yn cynnwys unedau astudio am ddim ar y llwyfan dysgu am ddim [OpenLearn](#) (gan gynnwys llawer o ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â Chymru a'n llwyfan Cymraeg [OpenLearn Cymru](#)) a chynnwys sylweddol ar YouTube ac ar iTunesU lle mae ein heitemau wedi cael eu lawrlwytho dros 70 miliwn o weithiau.

Byddem yn croesawu cael y cyfle i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach yn ôl yr angen a gweithio gyda Llywodraeth Cymru wrth i'r system cymorth i fyfyrwyr ac ariannu gael ei rhoi ar waith a'i chyfleu i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

